**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance & Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Mawrth 2015

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID: CRAFFU AR AIL GYLLIDEB ATODOL LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER 2014-15**

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15.

Amgaeaf nodyn yn Atodiad A, sy'n ymateb i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor ar y gyllideb honno.

Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance & Government Business

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Atodiad A - Ymateb i'r Argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Cyllid**

**Ailflaenoriaethau a Gostyngiadau yn ystod y Flwyddyn**

**Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn ansicr ynghylch y rhesymau y tu ôl i gyfraniadau cymharol y chwe phrif grŵp gwariant arall i'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i'r prif grŵp gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn enwedig y rhesymau pam fod rhai prif grwpiau gwariant wedi cyfrannu mwy nag eraill. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn egluro'r broses hon o wneud y penderfyniad hwn.**

Fel yr amlinellais i'r Pwyllgor, bu inni weithio ar draws y Llywodraeth gyda chymorth pob un o Weinidogion y Cabinet i nodi pa gronfeydd allai gael eu darparu gan bortffolios eraill i MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i fynd i'r afael â'r bwlch ariannu a nodwyd gan adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield.

Mae'n anochel y bydd y sefyllfa ym mhob MEG yn ystod blwyddyn ariannol yn amrywio yn dibynnu ar y gwahanol risgiau a chyfleoedd ym mhortffolio pob Gweinidog a hefyd i ba raddau y mae cronfeydd eisoes wedi'u hymrwymo. Am y rhesymau hynny nid yw bob amser yn briodol bod pob MEG yn gwneud cyfraniad syml ar sail canran at bwysau o'r fath. Dyna paham yr oedd ein dull o ymdrin â'r mater hwn ar y cyd, a hynny ar draws y Llywodraeth, mor bwysig.

Wrth gyfarfod â phob Gweinidog yn ystod y flwyddyn i benderfynu ar eu gallu i gyfrannu at y pwysau a oedd yn ein hwynebu a faint y gallai ein cronfeydd wrth gefn ei gyfrannu bu modd inni gyhoeddi'r cyllid ychwanegol o £200 miliwn ochr yn ochr â'r Gyllideb Drafft.

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod cyllid ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i sefydliadau'r GIG er mwyn helpu i leddfu'r pwysau ariannol, ond nid i lywodraeth leol a'r trydydd sector mewn perthynas â dyfarniadau llys diweddar yn y sector gofal cymdeithasol. Mae'r Gweinidog yn ymgymryd â gwaith i asesu goblygiadau posibl y costau ychwanegol sy'n wynebu'r sectorau hyn. Rydym hefyd yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried darparu cymorth i lywodraeth leol a'r trydydd sector i helpu i liniaru'r costau ychwanegol hyn.**

Fel rhan o'n gwaith ac wrth bennu a rheoli ein cyllidebau rwyf yn cyfarfod â'r Gweinidogion yn rheolaidd i drafod gwahanol faterion o fewn eu portffolios. Bydd pob Gweinidog hefyd yn adolygu pwysau yn eu cyllidebau eu hunain yn rheolaidd, ac nid yw'r mater hwn yn wahanol yn hynny o beth. Yn anffodus, nid yw bob amser yn bosibl nac yn briodol cynnig cymorth canolog er mwyn cydnabod pob mater posibl.

Mae ein canllawiau comisiynu i'r Awdurdodau Lleol, a gyhoeddwyd yn 2010, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdodau Lleol ddeall costau gwasanaethau gofal a ddarperir yn uniongyrchol a gwasanaethau wedi'u contractio ac i weithredu mewn ffordd sy'n hybu cynaliadwyedd gwasanaethau. Byddai unrhyw gostau ychwanegol sy'n ymwneud â'r dyfarniadau hyn yn cael eu nodi gyntaf gan yr Awdurdodau Lleol trwy'r broses honno.

Fel Llywodraeth rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol i'r gwasanaeth iechyd ac yn ein Cyllideb ar gyfer 2015-16 buddsoddwyd £10m yn ychwanegol i gydnabod y pwysau hynny.

## Cronfeydd a’r System Cyfnewid Cyllidebau

**Argymhelliad 3. Mae’r Pwyllgor yn croesawu’r hyblygrwydd ychwanegol a roddwyd i Lywodraeth Cymru ynghylch cario cyllid trafodiadau ariannol ymlaen, ac mae’n argymell bod y Gweinidog yn parhau gyda’i hymdrechion i gael mwy o hyblygrwydd o ran system gyfnewid y gyllideb.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwyso, a bydd yn parhau i bwyso am hyblygrwydd pellach yn ein trefniadau cyllidebol o fewn y Fframwaith Gwariant Cyhoeddus cynhwysfawr.

Mae’r system Cyfnewid Cyllidebau yn un elfen ar y fframwaith cynhwysfawr hwn ac yn elfen lle’r ydym yn croesawu cefnogaeth y Pwyllgor. Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau hyblygrwydd pellach oddi wrth y Trysorlys.